O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2011 Rhif 2124 (Cy. 230)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Croesfan Reilffordd Llanymddyfri, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011

Gwnaed	*26 Awst 2011*
Yn dod i rym	*7 Medi 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Abertawe – Manceinion (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), wedi eu bodloni y dylid gwaahrdd traffig ar ddarn penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arno.

Mae Gweinidogion Cymru, gan hynny, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)** a phob pŵer galluogi arall, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2).**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Medi 2011 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A40 (Croesfan Reilffordd Llanymddyfri, Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin) (Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2011.

2. —1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod sy'n dechrau am 20:00 o'r gloch ar 7 Medi 2011 ac sy'n dod i ben pan fydd yr arwyddion traffig dros dro wedi eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr "y darn o'r gefnffordd" *(""the length of the trunk road"*) yw'r darn hwnnw o gefnffordd yr A40 wrth Groesfan Reilffordd Llanymddyfri yn Llanymddyfri, Sir Gaerfyrddin, sy'n ymestyn o bwynt tua 20 o fetrau ar y naill ochr a'r llall i'r groesfan honno;

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.